

DATGANIAD NEWYDDION
2021

Dydd Iau 22 Ebrill

Palasau Hwyl 2021 yn lansio, ac yn croesawu dau gyd-gyfarwyddwr newydd

- Bydd y lansiad yn agor Palasau Hwyl i bobl gofrestru ar gyfer y penwythnos gweithredu ac yn rhannu gwerthusiad o 2020 a ffilm o Grewyr Palasau Hwyl ledled y DU
- Cyfle i gwrdd a chlywed gan y cyd-gyfarwyddwr newydd eu cyhoeddi, y cyn-gynhyrchydd Palasau Hwyl Kirsty Lothian a'r gweithiwr cymunedol a cherddor Makala Cheung
- Cynhelir Palasau Hwyl eleni ledled y DU ac yn rhyngwladol rhwng Dydd Gwener 1 a Dydd Sul 3 Hydref

LANSIAD AR-LEIN I'R WASG: Dydd Mawrth 27 Ebrill, 11am dros Zoom

@funpalaces | #FunPalaces | www.funpalaces.co.uk/cy/

Wrth i gymunedau a diwylliant ledled y DU a'r byd gydio yn yr awenau eto, mae'r Palasau Hwyl yn lansio eu hymgyrch 2021 ar-lein ac yn cyhoeddi pâr newydd sbon o gyd-gyfarwyddwyr. Bydd y Palasau Hwyl yn parhau i ddathlu'r cryfder, undod a chreadigrwydd mewn cymunedau, sydd wedi bod mor hanfodol dros y flwyddyn ddiwethaf. Bydd y penwythnos gweithredu fis Hydref yma, sy'n lansio ar-lein ym mis Ebrill, yn croesawu Palasau Hwyl ar-lein ac oddi ar-lein gan Grewyr ar draws y wlad a'r byd i rannu sgiliau, cysylltu cymunedau a chreu chwyldroadau bychain.

Mae'r tîm hefyd yn croesawu cyd-gyfarwyddwyr newydd - bydd y gweithiwr cymunedol a cherddor o Fryste, Makala Cheung, yn gweithio ochr yn ochr â'r cyn gynhyrchydd Palasau Hwyl Kirsty Lothian - gyda Stella Duffy a Sarah Jane-Rawlings yn camu i lawr ar ôl saith mlynedd o sefydlu ac yn tyfu'r sefydliad. **Mae Kirsty Lothian wedi bod yn Gynhyrchydd y Palasau Hwyl ers iddynt ddechrau yn 2014.** Cyn hynny bu'n gweithio gyda'r cwmni theatr Improbable, yn cyfarwyddo operâu i Bury Court Opera a Gŵyl Anghiani ac mae hi hefyd yn Arloeswr Aelodau'r Co-op gan gefnogi ei chymuned yn Ne Llundain. **Mae Makala Cheung yn weithiwr cymunedol ac yn artist cerddoriaeth (a elwir yn KALA CHNG) o Fryste.** Mae Makala wedi bod yn gweithio yn ei chymuned Knowle West ers bron ugain mlynedd ac ar hyn o bryd mae hi'n gweithio'n rhan-amser yng Nghanolfan Gymunedol Filwood yn arwain Filwood Fantastic, prosiect cymunedol creadigol a gefnogir gan Creative Civic Change. Mae hi hefyd yn un o Eiriolwyr Hapusrwydd etholedig y ddinas, fe'i henwyd yn llysgennad diwylliannol gan Fiwro Tsieina Bryste a Gorllewin Lloegr ac fe helpodd i greu'r sianel YouTube BESEA TV newydd i ddathlu doniau Asiaidd Dwyreiniol a De-ddwyreiniol yn y DU.

Bydd 2021 yn nodi'r wythfed penwythnos gweithredu Palasau Hwyl blynyddol am ddim, gan ddod â chrewyr Palasau Hwyl ynghyd i arwain eu digwyddiadau lleol eu hunain. Mae Palasau Hwyl yn cael eu harwain gan, a thros, gymunedau lleol, gan gysylltu pobl trwy'r celfyddydau, gwyddoniaeth crefftiau, technoleg, gweithgareddau digidol a threftadaeth. Eleni bydd digwyddiadau ar-lein ac yn y fan a'r lle er mwyn parhau'n hygyrch i'r rhai sydd wedi wynebu allgau digidol yn ystod y cyfnod clo a byddant hefyd yn parhau i gefnogi'r rhai na allant ddod i weithgareddau yn y fan a'r lle. Ochr yn ochr â thîm sefydledig o lysgenhadon rhanbarthol sy'n gweithio gyda sefydliadau partneriaeth ar draws y DU, bydd tri llysgennad newydd, a hynny'n bosib diolch i grant gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, yn cael eu recriwtio yn Nyfnaint, Rotherham a Sage Gateshead.

Meddai Kirsty Lothian, "Rwyf wrth fy modd â bod yn croesawu Makala Cheung i'r Palasau Hwyl, ac yn camu i'r rôl o gyd-gyfarwyddwr gyda hi. Dros y saith mlynedd ddiwethaf, mae'r Palasau Hwyl wedi tyfu o fod yn syniad i fudiad o dan stiwardiaeth Stella Duffy a Sarah-Jane Rawlings. Dyna esgidiau mawrion i'w llenwi, ac ysgwyddau mawrion i sefyll arnynt, a gyda miloedd o Grewyr Palasau Hwyl i gerdded ochr yn ochr â nhw, ni allai fod gan Makala a minnau ddechrau mwy cyffrous i'n taith. Mae pob Palas Hwyl yr un mor unigryw â'r gymuned sy'n ei greu, a thros y blynyddoedd mae Crewyr, wrth rannu eu sgiliau, wedi dysgu'r amrywiaeth fwyaf anhygoel o bethau i mi - o echdynnu fy DNA gyda sudd oren yng Nghaeredin, i greu blanced pwythau brodwaith yng Nghilgwri, i reidio beic tandem ym Mhontypridd. Un peth sydd ganddynt i gyd mewn cyffredin yw'r pŵer rhyfeddol i ddod â phobl ynghyd, uwchleuo'r sgiliau, creadigrwydd, doniau ac arbenigedd anhygoel sydd gennym ni i gyd ar y tu mewn. Wrth i ni fynd i'r afael â sut mae'r byd wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf, mae un peth yn sicr: mae angen y creadigrwydd a'r cysylltiad hwnnw arnom yn fwy nag erioed.

Meddai Makala Cheung, "Mae'r Palasau Hwyl yn credu yn yr un pethau yr wyf i'n credu ynddynt; bod gan bawb doniau anhygoel, trwy ddod at ein gilydd, bod yn greadigol, yn ddyfeisgar ac adeiladu ar ddiwylliant lleol y gallwn greu newidiadau cymunedol cadarnhaol a byw bywydau mwy hapus. I mi, pan ddarllenais weledigaeth wreiddiol Joan Littlewood o fod mewn Palas Hwyl mae'n swnio'n union fel fy nghanolfan gymunedol! Palasau Hwyl yw'r lleoedd yr ydym yn dod ynghyd ynddynt i gael hwyl, creu cysylltiadau, dysgu a rhoi cynnig ar bethau newydd, a gwneud i bethau ddigwydd gyda'n gilydd. Ni allaf aros am weithio gyda'r tîm presennol a phobl newydd ar draws y DU a'r tu hwnt i ddatblygu'r esblygiad nesaf o'r Palasau Hwyl gyda'n gilydd. Trwy gydol fy mywyd, y cyfan yr wyf wedi gofalu amdano yw lledaenu llawenydd, cysylltu â phobl, bod yn greadigol, annog pawb i fod nhw eu hunain ysblennydd, a bod yn rhan o gymuned. Dw i mor gyffrous i weld sut y gallaf fynd â'r angerdd 'na at bobl, cymuned a chreadigrwydd a gweithio gyda phobl sydd hyd yn oed yn fwy syfrdanol (mae pawb yn syfrdanol!) i newid y byd er gwell gyda'n gilydd."

Meddai'r Crëwr Palas Hwyl Miriam Storey (Llyfrgell Eltham Llundain) "Bu'n flwyddyn hynod o anodd ac roedd yn galed gweld sut roedd un wythnos yn edrych o'i gymharu â'r llall ... wedyn daeth y Palasau Hwyl i'ch atgoffa nad oes rhaid i chi wneud popeth, bod yna gwerth yn y pethau bach, eu bod yn cael eu gwneud o hyd gydag ymrwymiad a diben mawr, a gyda chariad. Ac er mai penwythnos o weithredu yw'r Palasau Hwyl, nid yw'n stopio yno, gallwn barhau â'r gweithredu hynny trwy gydol gweddill y flwyddyn, gallwn gysylltu, gallwn gynllunio, gallwn fod yno ar gyfer ein gilydd. Rwyf wedi dod â'r diwrnod i ben yn fwy gobeithiol na phan ddechreuais, ac yn fwy egniol nag yr oeddwn i'n disgwyl."

Y Rhaglen Llysgenhadon

Yn 2019, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, dyfarnwyd £1.5m i'r Palasau Hwyl gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Dros gyfnod o bum mlynedd, mae'r grant o £1.5m yn cefnogi gwaith y Llysgenhadon Palasau Hwyl mewn 9 lleoliad, gan gydweithio â sefydliadau partner lleol. Mae'r Llysgenhadon presennol yn parhau â'u gwaith yng Nghernyw, Gogledd Iwerddon, Gogledd Cymru, Sheffield, Yr Alban (Inverness a'r Parth Canolog) ac eleni ymunir â nhw gan dri llysgennad newydd yn Rotherham yng Nghyngor Rotherham, yn Nyfnaint yn Libraries Unlimited, ac yn Gateshead yn Sage Gateshead.

Mae'r Llysgenhadon Palasau Hwyl i gyd yn bobl leol, sydd eisoes yn gweithio ac yn gysylltiedig â'u cymunedau eu hunain. Mae'r cyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, cyllidwr gweithgarwch cymunedol mwyaf

y Deyrnas Unedig, yn cefnogi'r Llysgenhadon i wneud hyd yn oed yn fwy ar sail llawr gwlad a lleol. At hynny, bydd y Llysgenhadon yn rhannu ac yn datblygu dysgu gyda'r unigolion a chymunedau y maent yn cydweithio â nhw, ac yn fwy cyffredinol gyda'r nifer mawr o sefydliadau eraill ar draws y DU sy'n deall bod pobl leol wrth wraidd ein hymgyrch tuag at fywyd diwylliannol a chymunedol sy'n wirioneddol gynhwysol ac yn groesawgar i bawb.

Y Tîm Palasau Hwyl Canolog

Cyd-Gyfarwyddwr: Kirsty Lothian

Cyd-Gyfarwyddwr (tan Orffennaf 2021): Sarah-Jane Rawlings

Cyd-Gyfarwyddwr Newydd: Makala Cheung

Bydd y Palasau Hwyl yn recriwtio yn Haf 2021.

I gael gwybodaeth bellach am sut i gofrestru, ewch i: www.funpalaces.co.uk/cy/register/

Nodiadau i Olygyddion

Ynghylch Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Ni yw ariannwr mwyaf gweithgareddau cymunedol y Deyrnas Unedig - rydym yn falch o ddyfarnu arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i gymunedau ar draws Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ers mis Mehefin 2004, rydym wedi rhoi dros 200,000 o grantiau a dyfarnu dros £9 biliwn i brosiectau y mae miliynau o bobl wedi elwa ohonynt.

Rydym yn angerddol dros ariannu syniadau gwych sy'n bwysig i gymunedau ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Wrth wraidd popeth a wnawn rydym o'r gred pan fydd pobl yn arwain, mae cymunedau'n ffynnu. Diolch i gefnogaeth gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae ein grantiau'n agored i bawb. Rydym yn freintiedig i fedru gweithio gyda'r grwpiau lleol lleiaf hyd at elusennau sy'n gweithio ar draws y Deyrnas Unedig, gan alluogi pobl a chymunedau i wireddu eu huchelgeisiau.

[Gwefan](#) | [Twitter](#) | [Facebook](#)

PALASAU HWYL AR AGOR I GOFRESTRIADAU 2021

Mae'r Palasau Hwyl yn croesawu cofrestriadau gan gymunedau ledled y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol i greu Palas Hwyl ar 1, 2 a 2 Hydref 2021.

Ysbryd pennaf Penwythnos Palasau Hwyl 2020 oedd gwneud iddo ddigwydd er gwaethaf popeth, a chydio mewn cysylltiad a chreadigrwydd (a bu i 95% wneud i'w Palas Hwyl ddigwydd heb unrhyw gyllid ychwanegol - i fyny o 80% y llynedd). Yn 2020, bu i ni wahodd Crewyr i greu Palasau Hwyl Bychain, ym mha ffordd bynnag y gallent ei wneud yn ddiogel: ar eu stryd, yn eu ffenest, ar-lein ac oddi ar-lein. Dyma rai o ganfyddiadau allweddol Palasau Hwyl 2020:

Cyfanswm nifer y Palasau Hwyl: 364

- Roedd 42% o'r Palasau Hwyl AR-LEIN
- Roedd 30% ODDI AR-LEIN
- Gwnaeth 28% y ddau

Digwyddodd llawer o Balasau Hwyl ar draws nifer o gyrchfannau, gyda Phalasau Hwyl yn digwydd mewn 1250 o leoliadau.

- Yn 2019 cynhaliwyd 61% o Balasau Hwyl mewn llyfrgelloedd, ac yn 2020 dim ond 37% a westeiwyd gan lyfrgelloedd.
- Cynhaliodd unigolion, teuluoedd a strydoedd 22% o Balasau Hwyl yn 2020.
- Gwelsom newid yn y lledaeniad daearyddol hefyd, gyda'r Palasau Hwyl rhyngwladol yn cymryd ergyd fawr - lawr i 2% o 11% - a gyda Llundain bellach yn cyfrif am 9% o Balasau Hwyl y DU (i lawr o 13%).

MOBIUS.

The Lower Vestry
St George's Bloomsbury
6-7 Little Russell St
London WC1A 2HR

- Gwelodd y rhanbarthau oedd â Llysgenhadon newydd gynnydd sydyn iawn, gyda 16 o Balasau Hwyl yng Nghymru a 29 yng Ngogledd Iwerddon, lle bu dim ond llond llaw mewn unrhyw flwyddyn flaenorol.

Cyfanswm nifer y cyfranogwyr: 85,000

- Roedd gan 251 o Balasau Hwyl gydrannau ar-lein gyda 77,500 o gyfranogwyr rhithwir
- Roedd gan 211 o Balasau Hwyl gydrannau yn y fan a'r lle gyda 7500 o gyfranogwyr yn y fan a'r lle

Cyfanswm nifer y crewyr: 2000 o Grewyr

Ar gyfartaledd roedd gan bob Palas Hwyl 5.5 o Grewyr. Er gwaethaf y natur fychan, roeddem wrth ein boddau â darganfod bod pobl wedi creu eu Palasau Hwyl mewn grwpiau o hyd. A gwelsom hefyd fod pobl yn parhau i greu cysylltiadau newydd trwy eu Palasau Hwyl, gyda 40% o grewyr yn dweud iddynt gynnwys pobl newydd, a 45% yn adrodd iddynt wneud ffrindiau newydd.

Gwarchod

- Roedd 8% yn cynnwys pobl a oedd yn gwarchod eu hunain yn y tîm Crewyr (ac roedd 17% pellach yn cynnwys cyn-warchodwyr).
- Roedd 2% wedi'u harwain gan bobl a oedd yn gwarchod eu hunain ar y pryd (ac roedd 3% pellach wedi gwarchod eu hunain yn gynharach yn y pandemig).

Rydym yn credu yr arweiniodd ein hymdrechion i sicrhau y bu croeso cynnes i warchodwyr at gynnydd yng nghyfran y Crewyr arweiniol sydd ag anableddau neu gyflyrau iechyd - 16% yn 2020, i fyny o 10% yn 2019.

